**COFNODION CYFARFOD** Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru / Growing Mid Wales Board **A GYNHALIWYD** DROS ZOOM **AR** ddydd Mawrth, 21 Medi 2021

YN BRESENNOL

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:**

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Sir Ceredigion ac Aelod Cabinet dros Berfformiad Polisi, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd **(EAG) (Cadeirydd)**
Y Cynghorydd Dafydd Edwards: Aelod Cabinet dros y Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, ynghyd â Thai **(DE)**
Y Cynghorydd Catrin Miles: Aelod Cabinet dros Wasanaethau Dysgu a Dysgu Gydol Oes **(CM)**
Y Cynghorydd Rhodri Evans: Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio **(RE)**
Y Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Gyllid a Gwasanaethau Caffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd **(GL)**

**Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:**

Y Cynghorydd Rosemarie Harris Arweinydd Cyngor Sir Powys **(RH)**
Y Cynghorydd Aled Davies, Deiliad Portffolio Cyllid a Thrafnidiaeth **(AD)**
Y Cynghorydd Phyl Davies, Deiliad Portffolio Addysg a Thlodi **(PD)**
Y Cynghorydd Heulwen Hulme, Deiliad Portffolio yr Amgylchedd **(HH)**
Y Cynghorydd Iain McIntosh, Deiliad Portffolio Datblygiad Economaidd, Cynllunio a Thai **(IM)**

**Grŵp Strategaeth Economaidd:**

Fiona Stewart, Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd **(FS)**
Steve Hughson, Is-Gadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd **(SH)**

**Swyddogion:**

Eifion Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Dr. Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**
Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Strategol Bargen Twf Canolbarth Cymru **(CJE)**
Clive Pinney, Cyfreithiwr y Cyngor, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd **(LE)**
Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Corfforaethol dros yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(NB)**
Paul Griffiths, Cynghorydd **(PG)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**
Elin Prysor, Cyngor Sir Ceredigion **(EP)**
Ffion Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion **(PA)**
Aggie Caesar-Homden, Rheolwr MWRSP **(ACH)**
Stephen Johnson, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion **(SJ)**
Cathy Martin, Cyngor Sir Ceredigion **(CM)**

| 1 | CROESO AC YMDDIHEURIADAU / WELCOME AND APOLOGIES |
|---|---|

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

| 2 | DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL / DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST |
|---|---|

Datgelwyd budd gan Fiona Stewart a Steve Hughson yn eitem 5, y Grŵp Strategaeth Economaidd a datgelwyd budd hefyd gan Fiona Stewart yn eitem 7, Achos Busnes Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru.

| 3 | COFNODION DRAFFT Y CYFARFOD DIWETHAF 11/06/21 / DRAFT MINUTES OF THE LAST MEETING 11/06/21 |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2021 yn gofnod cywir.

| 4 | PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL / REGIONAL SKILLS PARTNERSHIP |
|---|---|

Cafwyd diweddariad am y cynnydd gan y Rheolwr RSP. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd RSP ar 12 Mai 2021, a phenodwyd Adrian Watson, Pennaeth Ysgol, Canolfan y Dechnoleg Amgen, yn Gadeirydd Interim Bwrdd RSP. Roedd Aggie Caesar-Homden wedi cychwyn yn ei rôl fel Rheolwr MWRSP ar 8 Mehefin 2021. Penodwyd Swyddog Ymgysylltu Cyflogwyr RSP a byddai'n cychwyn yn ei swydd ar 4 Hydref 2021. Bu'r broses o geisio recriwtio Swyddog Datblygu Data RSP yn aflwyddiannus.

Cyfeiriodd FS at y cyfathrebu gyda busnesau. Roedd hi'n dymuno gweld cronfa ddata o fusnesau yng Nghanolbarth Cymru yn cael ei chreu, er mwyn iddynt oll gael gwybodaeth ar yr un pryd. Dywedodd ACH y byddai hyn yn cael ei ystyried pan fyddai'r Swyddog Ymgysylltu Cyflogwyr yn ei swydd. Nododd FS hefyd bod angen cynnal archwiliad o'r sgiliau y mae eu hangen ar fusnesau a nododd y Cadeirydd bod hwn yn un o'r rhesymau dros sefydlu'r RSP.

Nododd y Bwrdd aelodaeth arfaethedig Bwrdd RSP. Pwysleisiodd RH yr angen i gael cynrychiolwyr o fyd busnes ar y Bwrdd, a nodwyd bod gan y ddau Gyngor yr hawl i gytuno ar gyfansoddiad Bwrdd RSP.

Ceisiwyd cymeradwyaeth y Bwrdd i benodi'r Cadeirydd interim yn Gadeirydd parhaol tan cyfarfod blynyddol Bwrdd RSP ym mis Mai 2022. Cadarnhawyd y byddai Bwrdd RSP yn penodi Dirprwy Gadeirydd ar gyfer yr un cyfnod.

**PENDERFYNWYD**

1. **y dylid cadarnhau Cadeirydd interim presennol Bwrdd RSP yn Gadeirydd parhaol Bwrdd RSP tan fis Mai 2022.**

2. **Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gadeirydd RSP, ar y cyd â Rheolwr RSP, i adolygu'r aelodaeth gyfredol a sefydlu nifer o Grwpiau Clwstwr. Cyflwynir adroddiad i'w gymeradwyo yn ystod cyfarfod nesaf Bwrdd TCC a fydd yn cynnig diweddariad.**

## 5 GRŴP STRATEGAETH ECONOMAIDD / ECONOMIC STRATEGY GROUP

Cafodd y Bwrdd yr adroddiad am rôl y Grŵp Strategaeth Economaidd. Wrth i'r Fargen Twf symud o strategaeth a pholisi tuag at ddatblygiad manylach prosiectau, roedd hi'n bwysig ystyried cylch gwaith cyfredol yr ESG a'r ffordd y cyfansoddwyd y grŵp. Roedd hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y byddai gan sawl aelod o ESG ddiddordeb mewn prosiectau'r Fargen Twf wrth iddynt gael eu datblygu dros y misoedd i ddod. Comisiynwyd cyngor allanol annibynnol i archwilio'r broses hyd yn hyn, cydymffurfiaeth ag arfer gorau a dewisiadau er mwyn cynnwys ESG ac arweinwyr busnes yn y dyfodol. Roedd adroddiad yr ymgynghorydd wedi canfod bod gweithgarwch datgelu buddiannau wedi cael ei reoli a'i gofnodi mewn ffordd gywir hyd yn hyn, ond wrth i'r prosiectau gael eu datblygu, byddai risg y byddai gwrthdaro rhwng buddiannau.

Argymhelliad yr ymgynghorydd oedd y dylid manteisio ar y cyfle nawr i adolygu'r dull gweithredu tuag at ymgysylltu gan y sector preifat yn y Fargen Twf, ac felly, rôl/bodolaeth yr ESG. Hwn fyddai'r dewis mwyaf diogel er mwyn diogelu Aelodau'r ESG a'r cynghorau yn erbyn beirniadaeth am drefniadau llywodraethu a chyhuddiadau o wrthdaro neu duedd.

Cynigiwyd y dylid cwblhau cam Strategol a Pholisi y Fargen Twf yn ystod y cyfnod cyn Cytundeb y Fargen Derfynol gydag ESG.

Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Fwrdd TCC am gynigion manwl ynghylch ymgysylltu gydag Arweinwyr Busnes yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Dewis 1 fel y caiff ei ddisgrifio yn adroddiad yr ymgynghorydd.**

Diolchodd y Cadeirydd ac RH i aelodau ESG am eu gwaith yn ystod y cam strategaeth y Fargen Twf.

## 6 LLYWODRAETHU / GOVERNANCE

Roedd trydydd Cytundeb rhwng Awdurdodau yn cael ei ddrafftio gyda help cyfreithwyr allanol. Trefnir cyfarfod ddiwedd fis Hydref neu ddechrau fis Tachwedd i'w ystyried.

## 7 BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU / MID WALES GROWTH DEAL

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr Achos Busnes Portffolio ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru, i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Datblygwyd yr Achos Busnes Portffolio gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PoMO) gyda chymorth Cyngor Sir Powys Hatch Ltd a swyddogion Cynghorau Sir Powys a Cheredigion. Diben yr Achos Busnes Portffolio oedd cynnig trosolwg o gwmpas, swyddogaeth a'r trefniadau ar gyfer Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru, ar sail set gychwynnol o gynigion Rhaglen a Phrosiect.

Ar hyn o bryd, roedd y Portffolio yn cynnwys set ar ffurf rhestr fer o 2 Raglen a 9 Prosiect, y byddent yn cael eu hystyried ar gyfer datblygiad pellach. Byddai Bwrdd TCC yn ystyried manylion yr achosion busnes cychwynnol hyn maes o law a byddai'n rheoli'r Fargen Twf fel Portffolio. Nid oedd cymeradwyaeth gan y Bwrdd ar yr adeg hon yn gwarantu cyllid ar gyfer y set gychwynnol hon o raglenni/prosiectau, ond roedd yn dynodi y byddai'r dewisiadau hyn yn cael eu datblygu ymhellach ar gost/risg y cynigwyr ac y byddai Bwrdd TCC yn adolygu manylion y cynigion fel rhan o'u datblygiad achos busnes.

Roedd yr Achos Busnes Portffolio yn ddogfen fyw ac iteraidd y byddai angen ei hadolygu'n rheolaidd. Rhagwelwyd y byddai angen diweddaru'r Achos Busnes Portffolio ar ôl Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu, er mwyn gweithredu neu gynllunio ar gyfer cyflawni ei argymhellion i gyd-fynd gyda Chytundeb y Fargen Derfynol. Byddai'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn i gyd-fynd â'r gweithgarwch adrodd blynyddol a'r trefniadau cyllid a bennwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ond byddai'r Bwrdd yn gallu penderfynu a ddylid ei adolygu'n fwy cyson. Byddai Cathy Martin yn mapio cynllun sicrwydd yn barod ar gyfer y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

**PENDERFYNWYD**

**1. argymell yr Achos Busnes Portffolio i Gabinetau Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys i'w gymeradwyo.**

2. **Rhoi gorchymyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gyflawni gwaith datblygu pellach.**

## 8 UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS

Cytunwyd cyhoeddi datganiad i'r wasg yn cydnabod y cymorth a roddir gan ESG.

## 9 DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF / DATE OF NEXT MEETING

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10 Rhagfyr a threfnir cyfarfod pellach ddiwedd fis Hydref neu ddechrau fis Tachwedd i ystyried trydydd iteriad y Cytundeb rhwng Awdurdodau.

**Y Cynghorydd Sir Ellen ap Gwynn**
**Cadeirydd**